**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/HL/1054/16

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Mawrth 2016

Annwyl Christine,

**Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Chwefror ynghylch y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd. Rydych yn cyfeirio at y cyfarfod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr pan gyfeiriodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi at adolygiad thematig o 'ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd'. Gofynnoch am ragor o wybodaeth, yn benodol am amserlen yr adolygiad a pha flaenoriaeth y caiff ochr yn ochr â'r meysydd gwaith eraill sydd gan Estyn i'w cyflawni.

Mae'r adolygiad yn rhan o gylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2016/17, a chaiff ei gyflawni o fewn y flwyddyn honno. Mae cylch gwaith 2016/17 yn tynnu ynghyd y cyngor a fydd ei angen arnaf o Ebrill 2016 ymlaen. Cyflwynais y cylch gwaith blynyddol i Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Estyn, ar 24 Chwefror ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2016.

Mae disgwyl i'r adolygiad o 'ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd':

- Roi sylwadau ar y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion, a'i ansawdd;

- Rhoi adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw cystal, fel sail ar gyfer gwella addysg ariannol yng Nghymru yn y dyfodol;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Darparu adborth o ran a yw unrhyw wendidau a ganfyddir yn ymwneud ag ymarferwyr, yn ymwneud â diffyg cymorth neu adnoddau, ynteu'n ymwneud â maes arall y gallai fod angen cymorth cenedlaethol neu ranbarthol ar ei gyfer;

- Cael ei ddefnyddio'n sail i waith datblygu polisi pellach i wella darpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion.

Dylai'r adolygiad bennu cyfeiriad clir, a rhoi argymhellion ar feysydd i'w gwella. Dylai hefyd nodi meysydd o arfer da er mwyn i Lywodraeth Cymru, Consortia Rhanbarthol a rhanddeiliaid ehangach allu datblygu arnynt. Yn ogystal, dylai'r adroddiad a gaiff ei gyhoeddi sicrhau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bod addysg ariannol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm a'i fod yn cael cefnogaeth ddigonol o fewn ysgolion. Gallai'r hyn a ddaw o'r adroddiad hefyd ddylanwadu ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd.

Bydd canlyniadau'r adolygiad yn sail i strategaethau i wneud y canlynol:

- Codi safonau'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru er mwyn i bawb allu cyflawni eu potensial;

- Darparu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol, a darparu cyfleoedd o safon i bob dysgwr gan gyfrannu at y gwaith o ysgogi twf a chreu swyddi;

- Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles drwy leihau anghydraddoldeb a thrwy gynyddu cyfranogiad.

Bydd fy swyddogion yn cysylltu'n fuan â'u cymheiriaid yn Estyn i drafod amserlenni penodol ar gyfer gwaith maes, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad ar ôl yr adolygiad.

Yn gywir,



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills